# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 4

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Pwyllgorau trosolwg a chraffu*

### 65 Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu

Yn adran 22(10) o Ddeddf 2000 (pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am benderfyniadau ar gael), yn lle "or members of the authority" rhodder ", members of the authority, an overview and scrutiny committee of the authority or a sub-committee of such a committee".

### 66 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu

(1) Mae adran 58 o Fesur 2011 (cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl "i ganiatáu" mewnosoder "neu i'w gwneud yn ofynnol".

(3) Yn is-adran (3), yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir gwneud trefniadau;

(aa) darpariaeth sy'n rhagnodi amgylchiadau pan fo rhaid gwneud trefniadau;

(ab) darpariaeth i drefniadau gael eu gwneud yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau rhagnodedig;".

(4) Yn is-adran (4)—

(a) hepgorer “, wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir iddynt gan yr adran hon neu oddi tani, neu wrth benderfynu ai i’w harfer,”;

(b) ar ôl “Weinidogion Cymru” mewnosoder “mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaeth sydd ganddo o dan neu yn rhinwedd yr adran hon”.